

Llais Llanilar

Tymor y Gwanwyn Spring Term 2024

Gwell gwneud ein gorau na bod yn orau

YSGOL



LLANILAR



Diolch yn fawr i'r Cewri Cymreig am drefnu diwrnod GWYCH!

Thank you to the Welsh Giants for organising the Eisteddfod.



Cofiwch ddilyn yr ysgol ar Facebook Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar ac ar Trydar @YsgolLlanilar

Remember to follow the school on Facebook Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar and Twitter @YsgolLlanilar

Eisteddfod Ysgol Llanilar



Ar Fawrth 1af cafwyd gwledd o gystadlu yn Eisteddfod yr ysgol. Cafodd pob plentyn y cyfle i gystadlu ac i berfformio a chafwyd amrywiaeth o ganu, llefaru, dawnsio, offerynnau a hyd yn oed ukeles. Roedd yn ddiwrnod arbennig! I orffen y dathlu cynhaliwyd seremoni'r cadeirio. Roedd pob plentyn o Flwyddyn 5 a 6 wedi ysgrifennu stori ar y thema 'Ar Goll'. Llongyfarchiadau i Mati ar ennill y gadair hyfryd a 30 pwynt llys. Da iawn i Efan ar ennill tlws Miss Roberts am y perfformiwr mwyaf addawol.

On March the 1st, we held our School Eisteddfod. We had a fantastic day seeing our pupils performing as soloists and as groups. We saw fantastic reciting, singing and group pop performances, ukelele playing, and some folklore and disco dancing. At the end of the afternoon we had the main ceremony. Congratulations to Mati for winning the chair this year. Well done to Efan for winning Miss Roberts' award for the most promising performer.



Llongyfarchiadau i lys Aeron am ennill yr Eisteddfod eleni.

Congratulations to Aeron for being the winning team this year!



Wythnos Gwyddoniaeth

Rydym ni'n anelu i wella profiadau ein disgyblion o Wyddoniaeth yn yr Ysgol. Rydym yn awyddus i gynnig profiadau eang iddynt drwy gynnal gweithgareddau STEM ac ymweliadau arbennig. Croesawom RAF MUSUEM atom yn ystod Wythnos Wyddoniaeth i gynnal gweithdai STEM gyda Blynnyddoedd 4,5 a 6. Aeth Blynnyddoedd 5 a 6 hefyd i Ffair Wyddoniaeth y Brifysgol i ymweld â stondinau gwahanol. Roedd hyn yn brofiad gwych i'r disgyblion fwynhau gwahanol weithgareddau a chwblhau cwis. Yn ogystal, bu'r adran iau yn dysgu am ddyfeiswyr enwog ym myd STEM a'n creu ffeithlun gan ddefnyddio rhaglen Adobe Express mewn sesiwn fyw gydag arbenigwr. Waw- am wythnos brysur!



Rydym angen eich help! Rydym yn creu ardal Wyddoniaeth ym mhob dosbarth a'n chwilio am eitemau bob dydd i'w llenwi- oes platiau papur, cwpanau plastig, gwellt, ffoil gennych? Gofynnwn yn garedig am gyfraniadau os gwelwch yn dda!

We need your help! We are creating Science corners in all classes and are looking for everyday items to fill them- do you have paper plates, plastic cups, straws, foil at home? We ask kindly for contributions please!



We are aiming to improve our pupils' experiences of Science in the school. We have arranged different activities for the children during Science week. We welcomed RAF museum to host a STEM workshop. We had a fantastic time making rockets to launch and collecting balls with a Sphero. Years 5 and 6 attended the Science fair at Aberystwyth University to see various stalls and activities. Also, Years 3,4,5 and 6 learnt about famous STEM inventors and creating a post using Adobe Express during a live lesson. Waw- what a busy week!



Science Week

Dosbarth Gelernt



Cawsom Eisteddfod Ysgol arbennig ar Ddydd Gŵyl Dewi, gyda phawb yn canu, dawnsio a chwarae offerynnau roeddent wedi creu eu hunain! Pleser oedd gweld y plant yn cymryd rhan yn hapus ac yn hyderus – da iawn chi!

We had a School Eisteddfod on St David's Day, with everyone singing, dancing, and playing instruments! It was a pleasure to see the children participating happily and confidently - well done!



Cawsom ddiwrnod wrth ein bodd ar Ddiwrnod y Llyfr eleni. Cafodd pawb y cyfle i wisgo lan fel hoff gymeriad o lyfr a daeth Mr Aled Rumble i ddarllen stori i ni. Diolch yn fawr Aled – roedd pawb wedi mwynhau!

We had a lovely day on World Book Day this year. Everyone had the opportunity to dress up as their favourite character from a book and Mr Aled Rumble came to read us a story. Thank you Aled – everyone thoroughly enjoyed!



Rydym wedi bod yn brysur yn ystod y tymor yn cynnal Diwrnod Iechyd a Lles ac yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Fel rhan o'n gwaith thema buom am dro o gwmaps y pentref yn dysgu am ein ardal leol.

We have been busy during the term celebrating Saint Dwynwen's Day and Saint David's Day we also participated in the Health and Wellbeing Day. As a part of this term's work, we went for a walk around the village to learn more about our local area.



Pasg hapus
Happy Easter



Croesawu Ymwelwyr — Welcoming Visitors

Rydym wedi croesawu nifer o ymwelwyr i'r ysgol yn ystod y tymor. Daeth aelodau o staff o ysgolion ar draws Ceredigion i edrych ar ein gwaith o wrando ar lais ein disgyblion ac Hawliau Plant. Roedden ni'n falch iawn o'r gwaith gafodd ei rannu ar y dydd, ac yn arbennig o ddiolchgar i aelodau o Leisiau Ilar am sôn eu gwaith pwysig nhw.

We have welcomed a number of visitors to the school during the term. Members of staff from schools across Ceredigion came to look at the work we do in listening to the voice of our pupils. We were very proud of the work that was shared on the day, and very grateful to Ilar Voices for discussing their important work.



Dathlwyd Diwrnod y Llyfr ac fe ddaeth cymeriadau di-ri i'n gweld ni!

During World Book Day characters from books and films visited the school!

Diolch yn fawr i bawb ddaeth i'r ysgol i'n helpu ni i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Diolch i Mrs Branwen Rhys, Mrs Nerys Llywelyn, Y Cyngorydd Kerry Ferguson, Mr Aled Rumble a Wendy O'Shea-Meddour am ddarllen stori i'r dosbarthiadau. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri yn gwisgo fel ein hoff gymeriadau o lyfr.



Many thanks to everyone who came to the school to help us celebrate Book Day. Thank you to Mrs Branwen Rhys, Mrs Nerys Llywelyn, Councillor Kerry Ferguson, Mr Aled Rumble and Wendy O'Shea-Meddour for reading a story to the classes. We had a day full of fun and excitement dressing up as our favourite characters.



Can i Gymru—A Song for Wales

Cafodd blant dosbarth Glyndwr y cyfle i ganu gyda nifer fawr o ysgolion ar draws Cymru. Gwrandewch arnynt yn canu trwy glicio'r ddolen yma.

Dosbarth Glyndwr had a fantastic opportunity to sing with many schools from across Wales on a brand new song. Click on the link below to listen to the song.

[SONG FOR WALES AMENDED END SEQ 2022024.mp4](#)



Hwyl fawr a Chroeso nôl!

Good-bye and Welcome back!



Dywedwyd hwyl fawr a phob


lwc wrth y Parch Alun yn gynt yn y tymor wrth iddo ddechrau ei swydd newydd. Croesawyd y Parchedig Julian Smith yn ôl atom ni ac edrychwn ymlaen at glywed stori gyda fe bob pythefnos.

We said goodbye and good luck to the Reverend Alun earlier in the term as he started his new job. The Reverend Julian Smith was welcomed back to us and we look forward to having a story with him every fortnight.

Dosbarth Glyndŵr

Mae disgyblion Glyndŵr wedi bod yn mwynhau dysgu am Batagonia y tymor hwn fel rhan o'n thema Gwlad, Gwlad Gwladfa. Maent wedi bod wrth eu boddau yn dysgu am y Mimosa a'r daith gyntaf o Lerpwl ym 1865. Dyma flas o'n gweithgareddau amrywiol.

Glyndŵr pupils have been enjoying learning about Patagonia this term as part of our Gwlad, Gwlad, Gwladfa theme. We have enjoyed learning about the Mimosa ship which carried the first Welsh people to South America in 1865. Here is a taster of some of our activities.



Aethom ni i'r Llyfrgell Genedlaethol i ddarganfod mwy am Batagonia ac i weld casgliad o waith celf Kyffin Williams. Roedd hi'n arbennig i weld y ffynhonnellau gwreiddiol gwyb sydd yno a cael cyfle i weld hen bapur newydd oedd yn llawn hanesion difyr- o werthu defaid i wobrau yn yr Eisteddfodau lleol.

We went for a visit to the National Library to discover more about Patagonia and to see Kyffin Williams' art collection. It was fantastic to see all the different sources that are there and we had the opportunity to see an old newspaper full of interesting stories- from adverts selling sheep to prizes in their local Eisteddfod,



Dosbarth Gwenllian

Er bod y tymor yma wedi bod yn un fyr, rydyn ni wedi bod yn gwneud llawer o bethau hwylus, fel creu paent a gwersi ffidil! *Although it's been a short term, we've done so much!*



Diolch o galon i Rose sydd wedi bod wrthi ers wythnosau yn dysgu sgiliau cerddorol anhygoel i ni; sgiliau cyfri, sgiliau darllen cerddoriaeth heb sôn am gyd-chwarae a dehongli cerddoriaeth. *A massive thank you to Rose for teaching us invaluable music skills this term. We've had P-Buzz and Violin lessons! We've learnt how to follow music, appreciate music and play together. Diolch!*



Yn ystod y tymor diwethaf, rydyn ni wedi bod yn dysgu am y Celtaid. Buodd y plant yn ymchwilio i gartrefi Celtaidd ac yna dewison nhw sut i ailgreu tŷ crwn. Cafwyd prynhawn ffantastig o ddefnyddio pethau gwahanol fel mwd, clai, brigau, dŵr, gwellt, lego a Minecraft. Gwych blantos!

During the last term, we have been learning about the Celts. The children researched Celtic roundhouses and decided how best they could replicate. We had a great afternoon using different materials such as mud, clay, sticks, water, straw, lego and Minecraft.



Penderfynodd y plant ei bod nhw eisiau creu paent ei hun fel oedd y bobl Geltaidd yn arfer gwneud. Aethon ni allan i gasglu pethau naturiol a'i malu nes ei bod nhw'n rhoi lliw. *The children decided that they wanted to create their own paint, just like the Celts. We went outside to collect natural items and crush them with rocks until they gave colour.*

Fel rhan o'n gwersi iaith yr hanner tymor yma, rydyn wedi bod yn edrych ar stori 'Y Papaya Siaradus' mewn dull Pie Corbett. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn dysgu symudiadau i gyd-fynd â'r stori. Roedd y plant yn awyddus i flasau papaya cyn i ni neud gwaith ar y stori.

As a part of our language lessons, we've been reading 'Y Papaya Siaradus' in the form of Pie Corbett. The children insisted that we taste some papaya before doing any story work!



Llangrannog

Ar gychwyn ein tymor, aeth blwyddyn 3 a 4 i Llangrannog am noson. Roedd y plant wedi bod yn edrych ymlaen ers misoedd! Ar ôl pacio'r bws a sicrhau bod digonedd o snacs gyda ni, roedd hi'n amser gadael Ysgol ac anelu am Llangrannog.

At the beginning of the term, year 3 and 4 went to Llangrannog for the night. The children had been looking forward to it for months! After packing the bus and making sure we had enough snacks, it was time to leave school and head for Llangrannog.



Roedd yna cymaint o weithgareddau i wneud. Buodd y plant wrthi yn gwneud saethyddiaeth, dringo, merlota, nofio, rhaffau uchel a rhaffau isel, beiciau modur, gwibgartio a gemau chwaraeon. Mae'n saff i ddweud bod y plant wedi cael amrywiaeth eang o weithgareddau a'u bod nhw wedi mynd i'r gwely yn flinedig dros ben!

There were so many activities to do. The children took part in archery, climbing, horse riding, swimming, high ropes and low ropes, quads, tobogganing and sports games. Safe to say that the children had a wide variety of activities and they definitely went to bed tired!



Dosbarth Barti Ddu

Yn ystod ein Prosiect Cerdd a Sain Llanilar rydym wedi bod yn cydweithio gyda Heledd Watkins ac rydym wedi mwynhau'r profiadau newydd hyn. Rydym wedi bod yn brysur yn dod i adnabod yr ardal leol ac yn archwilio pa seiniau sydd i'w clywed ym mhob ardal gan ddefnyddio ein dychymyg.

During our project 'Llanilar Music and Sound' we have been working closely with Heledd Watkins and we have enjoyed these new experiences. We have been busy getting to know the local area and exploring what sound we have heard at each area and using our imagination.




Cyflwyno gwybodaeth am Lyn y Mileniwm.
Presenting information about 'Llyn y Mileniwm'.



Suddo neu arnofio?
Rydym wedi mwynhau darganfod pa ddeunydd sy'n suddo neu'n arnofio a chreu cwch i'n cymeriad.

Sink or float?
We enjoyed finding out what material sink or float and creating a boat for our character.



Defnyddio ein hysbrydoliaeth o'r ardal leol a'n dychymyg i greu cymeriadau newydd ar gyfer ein llyfr llafar.

Using our inspiration from the local area and using our imagination to create new characters for our audiobook.




Casglu syniadau o gwmpas Llanilar



Llwybr Beicio



Siop Y Pentref
PIC•COLLAGE



Llongyfarchiadau! Congratulations!




Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Rydym yn falch iawn o'ch gwaith caled, eich dyfalbarhad a'ch ymdrechion. Gwych! Da iawn Alaw am ddod yn ail yn y gystadleuaeth unawd ac i gôr yr ysgol am ddod yn ail.

Congratulations to everyone who competed in the Urdd Eisteddfod. We're very proud of your hard work and perseverance. Fantastic!



Llongyfarchiadau i gôr yr ysgol am berfformiad anhygoel yng nghyngerdd Gwyl Ddewi yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Congratulations to the choir for a fantastic performance in the St David's Concert in the Arts Centre.



Lleisiau llar

YSGOL



LLANILAR

Dewiniaid Digidol—Digital Wizards



Rydym wedi bod yn brysur y tymor yma yn dysgu sgiliau newydd yn ystod ein hyfforddiant Llysgenhadon Digidol ar 'Teams' gydag ysgolion ar draws Ceredigion. Edrychwn ymlaen at rannu'r sgiliau newydd gyda gweddill yr ysgol.

Cawsom wahoddiad hefyd i rannu ein profiadau fel llysgenhadon digidol yng nghyfarfod Llywodraethwyr yr ysgol y tymor yma ac fe wnaethom fwynhau dangos sut rydym wedi defnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth i helpu eraill i wella.

We have been busy this term learning new skills during our Digital Ambassadors training on Teams this term with schools across Ceredigion. We look forward to sharing these skills with the rest of the school.

We were also invited to share our experiences as digital ambassadors at the Governors meeting this term and we enjoyed showing how we have used our skills and knowledge to help others improve.



Diwrnod Iechyd a Lles Health and Wellbeing Day

Diolch yn fawr i'r Llysgenhadon Efydd am drefnu diwrnod Iechyd a Lles arbennig arall. Cafwyd ddiwrnod yn ymlacio a dysgu technegau gwahanol i wella ein lles—ioga, zumba, lliwio meddwlgarwch a gweithgareddau pants gan NSPCC. Cawsom ni brofiad newydd hefyd, sef ymarfer Tai Chi.

Many thanks to the Bronze Ambassadors for organising another excellent Health and Wellbeing day. We had a relaxing day and learnt different ways to improve our well-being - yoga, zumba, mindful colouring and pants activities from the NSPCC. We also had a new experience of practicing Tai Chi.



Dysgu Cymraeg gyda'r Cewri

Learn Welsh with the Giants

[Y Tywydd \(youtube.com\)](https://www.youtube.com/watch?v=...)

Cliciwch ar y ddolen uchod i ddysgu am y tywydd.

Please click on the link above to learn about the weather.



Dosbarth Llywelyn



Yn ystod y tymor yma mae plant dosbarth Llywelyn wedi ceisio dod o hyd i'r ateb i'w cwestiwn ymholi 'Pam Aberfan?'. Wedi i'r plant weld rhaglen Aberfan ar 'Newsround' roedd pawb yn awyddus iawn i wybod mwy felly aethon nhw ati i greu cwestiynau ymholi. Yn ystod y tymor mae'r plant wedi dysgu am yr hanes ac wedi llwyddo i greu adroddiad papur newydd ynghyd â cherdd emosiynol o safbwynt

cloc Aberfan sydd bellach i'w weld yn amgueddfa San Ffagan. Aeth y plant ymlaen i ddysgu am löwyr y 19eg ganrif. Roedd y plant wedi syfrdanu ar sut roedd plant mor ifanc â 5 oed gorfod gweithio yn y pyllau glo! Cafwyd tipyn o sgwrs wrth iddynt edrych ar hawliau plant heddiw o'i gymharu â phlant y pyllau glo. Cafwyd cyfle i gwmpasu'r hyn oeddent wedi dysgu wrth ysgrifennu dyddiadur plentyn y pyllau glo. Mae'r plant wedi cael cyfle i fod yn greadigol iawn wrth iddynt fynd ati greu dawnys i gyfleu streic y glöwyr, darn o gelf ar gyfer yr eisteddfod a chwblhau gweithgaredd STEM wrth greu winsh er mwyn symud glo.



Over this term the children in Llywelyn's class have tried to find the answer to their inquiry question 'Why Aberfan?'. After the children saw a program on Aberfan on 'Newsround' everyone was keen to know more so off they went to create inquiry questions. During the term the children have learned about the history and have

succeeded in creating a newspaper report together with an emotional poem from the perspective of the Aberfan's clock which can now be seen in the St Fagans museum. The children went on to learn about the miners of the 19th century. The children were amazed at how children as young as 5 years old had to work in the coal mines! There was quite a conversation as they looked at our children's rights and compared it to the children of the coal mines. There was an opportunity to cover what they had learned when writing the diary of a child of the coal mines. The children have had the opportunity to be very creative as they set out to create a dance to convey the miners' strike, a piece of art for the eisteddfod and complete a STEM activity of creating a winch to move coal.

Rhannu Negeseuon Pwysig

Arbed dŵr—Saving Water



Mae ein Cyngor Ysgol yn frwd wrth rannu neges bwysig am beidio â gwastraffu dŵr. Maent yn cynnal gwasanaethau yn aml er mwyn ein hatgoffa ac wedi creu posteri.

Our School Council is enthusiastic in sharing an important message about not wasting water. They share the

message regularly in the assemblies, they monitor the taps and have created posters.

Dathlwyd Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched a gweiddwyd y neges bwysig yn falch



'Mae merched yn gallu gwneud unrhywbeth'


We celebrated the International Women's Day and were proud of shouting the message

'Women can do everything'

Gwasanaethau ysgol—School Assemblies

Mae plant yr ysgol yn cynnig enwau am bwy hoffan nhw ddysgu amdanynt—dyna yw sail ein gwasanaethau ni. Yn ystod y tymor yma rydym wedi dysgu am draddodiadau flwyddyn newydd a'r Hen Galan, Marie Curie Martin Luther King, Dai Jones Llanilar, Dafydd Iwan, Dewi Sant a Tanni Grey-Thompson. Mae Osian, Rhun a Thomas-Sion wedi rhannu gwybodaeth am brotest y ffermwyr ac rydym wedi dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched.

The school children tell us who they would like to learn about and who inspires them- that is the basis of our assemblies. During this term we have learned about new year traditions and the Hen Galan, Marie Curie, Martin Luther King, Dai Jones Llanilar, Dafydd Iwan, Dewi Sant and Tanni Grey-Thompson. Osian, Rhun and Thomas-Sion have shared information about the farmers' protest and we have celebrated International Women's Day.



Bydden ni'n hapus i glywed eich syniadau chi hefyd - pwy sydd yn eich ysbrydoli chi?

We'd be happy to hear your ideas too - who inspires you?



Sharing Important messages